

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Mai 1af, 2014 yn Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Dafydd Williams, (Cadeirydd); John Williams, (Is Gadeirydd); Margaret Griffith; William Ifor Hughes; Brian W Ifans; Aled Lloyd Evans; Alwen Evans; Naomi Jones; Trefor Wyn Jones; Elis Gwyn Jones; Thomas Prys Jones; Gwilym M Thomas a'r Clerc.

1 Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Marian Evans ac Ifor Wyn Davies.

2. Dewis swyddogion am y flwyddyn 2014/2015. a) Dewisiwyd y Cyngorydd John Williams, Ward Rhoslan yn Gadeirydd.

Cyn galw ar y Cyngorydd John Williams i ddod i gymeryd y gadair diolchodd y Cyngorydd Dafydd Williams i'r Cyngorwyr eraill am eu cyd weithrediad gydol y flwyddyn ac i'r Clerc a diolchwyd i'r Cyngorydd Dafydd Williams yntau am ei waith.

b) Dewisiwyd y Cyngorydd Ifor Wyn Davies , Ward Llanybi yn Is-gadeirydd. c) Ysgrifennydd a Swyddog Ariannol Cyfrifol. Gofynnodd y Clerc am ohirio'r penderfyniad hyd nes bod eitem rhif 23 ar y rhaglen wedi'i drafod. ch) Elusen William Elis, Llanystumdwy; Cyngorwyr Ward Llanystumdwy.

3.Cynrychiolydd i Bwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru. Dewisiwyd y Cyngorydd Trefor Wyn Jones gyda'r Cyngorydd John Williams wrth gefn.

4. Dewis cynrychiolydd y Cyngor ar Grwp Mynediad Dwyfor. Dewisiwyd y Cyngorydd Margaret Griffith.

5. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y ddau gyfarfod diwethaf; cyfarfod y Cyngor llawn, gydag un cywiriad sef mai £- o bunnoedd gyfrannwyd tuag at Gapel Pencaenewydd ac nid £-, a chyfarfod yr Is Bwyllgor Polisiau a Rheolau Sefydlog.

6. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

7. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.

8. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Materion y Gymuned. Derbyniwyd.

2. Aelod Cabinet Cynllunio, Parthed: Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, Gwynedd ac Ynys Môn (2011 – 2026); llythyr oddi wrth y Cyngorydd John Wyn Williams. Cyplyswyd yr eitem yma gyda rhif 10, 13 a 15, Chwilog. Yn y llythyr mae'r Cyngorydd Williams yn sôn bod rhai yn hel tystiolaeth am yr angen/dim angen am dai yn eu hardaloedd drwy *arolygon neu holiaduron*. Penderfynodd Cyngorwyr Cymuned Llanystumdwy ofyn am i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd lunio holiadur syml eu hunain a'i anfon at y rhai maent yn llythyr atynt yn barod yn gofyn am y wybodaeth y maent yn ofyn amdano. Byddai creu holiadur o'r fath yn ei gwneud yn llawer haws dadansoddi'r wybodaeth ddaw yn ôl. Yn ychwanegol gofynnwyd i lythyr gael ei anfon i Adran Monitro Cyngor Gwynedd i gwyno mor hir y bu Cyngorydd yn disgwyl am ateb i lythyr anfonodd i'r Adran Gynllunio ynghylch cais cynllunio cefn Madryn, Chwilog. Derbyniwyd llythyr Cymdeithas yr Iaith a bwriada'r Cyngorwyr Aled Lloyd Evans a Margaret Griffith drefnu arddangosfa o'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Chwilog er mwyn codi ymwybyddiaeth lleol.

3. Arolwg Bysiau Lleol Gwynedd 2014. Derbyniwyd er gwybodaeth ond gofynnwyd am i lythyr gael ei anfon i ofyn am i'r daflen amser gael ei diweddarau i gyd fynd â'r amserlen fysiau newydd.

9. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned:

1. Cais rhif C14/0274/41/RC – Diddymu cytundeb Adran 106 sy'n rhwymo'r defnydd at angen lleol yn unig. Tir Bach (to be renamed Tyddyn Diddig), Rhoslan. Cadarnhawyd y penderfyniad i gefnogi'r cais yma achos bod angen sylwadau erbyn Ebrill 24ain, 2014.

2. Cais rhif C14/0310/41/LL – Codi toeau i orchuddio dau iard fferm presennol; Maenllwyd, Pencaenewydd. Cefnogwyd.

3. Cais rhif C14/0317/41 LL – Ymestyn storfa slyri tanddaearol bresennol a chodi ffens ddiogelwch o'i amgylch; Mur Clwt Lloer, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi.

4. Cais rhif C13/0599/41/AM – Cais amlinellol i ddymchwel yr adeiladau presennol a codi 13 o dai; Site of the former Afon Wen Laundry, Afonwen. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Apêl o dan Adran 78(1) i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y Cyngor yma wedi cefnogi'r cais yma ym mis Medi, 2013. Penderfynwyd peidio anfon sylwadau ymhellach.

10. Ymateb i lythrau at Adran Gynllunio, Cyngor Gwynedd. Wedi'r drafod eisoes yn rhif 8.2.

11. Cartrefi Cymunedol Gwynedd; Lôn y Fynwent, Chwilog. Roedd awgrym yn eu llythyr mai mater i'r Cyngor yma ymhlith eraill oedd cyfrifoldeb gwaith cynnal Lôn y Fynwent o 3 Lon y Plas ymlaen. Penderfynwyd gofyn am i lythyr gael ei anfon at Gartrefi Cymunedol Gwynedd yn dweud yn glir nad oes dim cyfrifoldeb am y gwaith cynnal ar y Cyngor yma, mai ymateb i gwynion trethdalwyr lleol y mae'r Cyngor. Deallir bod Pwyllgor y Fynwent wedi gwario bron i £2,000- yn cynnal y ffordd o 3 Lôn y Fynwent ymlaen yn ddiweddar.

12. Llythyr o 10 Stryd Downing, Llundain yn dweud y gallai'r Cyngor arbed hyd at £2,000- ar Daliadau Yswiriant Gwladol o Ebrill 6ed, 2014 ymlaen. Gan nad yw'r Cyngor yma yn talu Yswiriant Gwladol dros y Clerc, penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

13. Llythyr oddi wrth Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Wedi'r drafod yn rhif 8.2.

14. Cynhadledd ar y cyd SLCC/Un Llais Cymru, yn Llandudno, dydd Iau, Mai 15fed, 2014. Os yw yn gyfleus, penderfynwyd gofyn i'r Clerc a'r Cadeirydd gynrychioli'r Cyngor.

15. **Materion yn y gymuned.**

Chwilog.

Tai arfaethedig yn Chwilog yng nghyswllt y Cynllun Lleol. Wedi'i drafod yn rhif 8.2.

16. Materion sydd heb gael ymateb ar ôl gohebu yn eu cylch ers dros ddau fis.

Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau beth sydd yn digwydd ynghylch y polion ffôn sydd yn bowld yn y ffordd fawr ger Ysgol Llanybi.

17. Llythyr oddi wrth Gapel M C Pencaenewydd yn diolch am y cyfraniad ariannol. Derbyniwyd.

18. Archwiliad ariannol y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31ain, 2014. Mae yr Archwiliad Mewnol ar ddydd Iau, Mai 22ain, 2014 yn Swyddfeydd Cyngor Gwynedd ym Mhwillheli. Er gwyn gallu derbyn y cyfrifon a gall gwneud y gwaith angenrheidiol cyn anfon y cyfrifon ymlaen at yr Archwiliwr Allanol cyn diwedd mis Mai,

penderynwyd cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor yn Neuadd Llanystumdwy ar nos Fawrth, Mai 27ain, 2014 am 7 o'r gloch. Erfynnir am bresenoldeb pawb sy'n gallu.

**Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.**

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.